# Gwirfoddolwyr Ymchwil
# Amgueddfa Lechi Cymru

**Pwrpas y rôl:**

Mae Amgueddfa Lechi Cymru ar gau am y tro wrth i ni ailddatblygu'r safle a gwneud gwaith hanfodol i ofalu am yr adeilad. Y tu ôl i'r llenni, rydym yn edrych ar ffyrdd cyffrous o rannu'r stori llechi. Hoffech chi ein helpu i baratoi ar gyfer hyn trwy wneud ymchwil?

Byddwch yn ymuno â phwll o wirfoddolwyr ymchwil ac yn gweithio ar wahanol brojectau ymchwil penodol, yn ôl yr angen. Efallai y byddwch yn helpu ni i ddod o hyd i adnoddau trwy archwilio'r Archif Ddarlledu Genedlaethol neu drwy chwilio am ddeunyddiau ar-lein. Efallai byddwch yn helpu ni i ymchwilio pynciau a awgrymir gan gymunedau lleol, fel straeon merched yn y diwydiant llechi.

**Lleoliad:** O bell, gyda rhai diwrnodau wyneb yn wyneb yn ardal Llanberis neu Bangor

**Oedran:** 16+ **Dyddiad cau:** 4 Mawrth 2026, 5pm

**Mae'r rôl yn addas i berson:**

- sy'n mwynhau ymchwilio ar eu pennau eu hunai,
- sydd gan ddiddordeb yn y dirwedd lechi a hanes lleol,
- sydd â phrofiad o ymchwilio deunyddiau neu adnoddau hanesyddol, er nad yw hyn yn angenrheidiol.

**Ystyriaethau:**

Mae'r rôl hon yn fwyaf addas i rywun sydd â mynediad i gyfrifiadur eu hunain neu sydd â mynediad hawdd at lyfrgell gyhoeddus. Er bod hon yn rôl wirfoddoli o bell, byddwn hefyd yn gwahodd gwirfoddolwyr i ymuno â ni ar gyfer sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb neu gyfarfodydd grŵp.

**Oriau ac ymrwymiad:**

I'w benderfynu gyda gwirfoddolwyr unigol, yn dibynnu ar brojectau penodol. Bydd y rôl hon yn dod i ben pan fydd y project ailddatblygu wedi'i gwblhau.

Diddordeb? Cwblhewch y ffurflen gofrestru a'i hanfon at

gwirfoddoli@amgueddfacymru.ac.uk neu ffonio 029 2057 3002.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg, byddwn yn eich ateb yn Gymraeg ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

**Y buddion i'n girfoddolwyr:**
- treuliau teithio;
- gostyngiad yn ein siopau, caffis, cyrsiau ac arddangosfeydd;
- geirda ar gais;
- nifer o ddigwyddiadau dathlu a mynediad tu ôl i'r llenni;
- cyfle i gyfarfod pobl newydd.

